



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

5 Mai 2023

Annwyl Russell,

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 30 Mawrth mewn cysylltiad â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Rwyf wedi cymryd y cyfle i ystyried y trawsgrifiad o'r sesiwn, pan godwyd nifer o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor er mwyn archwilio'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer tryloywder a thendro cystadleuol fel rhan o'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Mae paragraffau 145-146 a 176-177 o'r trawsgrifiad yn cynnwys manylion y drafodaeth ar y camau y bydd angen eu dilyn fel rhan o ymarfer tendro cystadleuol o dan y gyfundrefn gaffael yn y dyfodol ac, yn benodol, sut yr ymdrinnir â'r materion hyn ar wyneb y Bil.

Hoffwn egluro sut y bydd y Bil yn ymdrin â'r mater hwn.

Mae adran 10A(2) o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 – a fyddai'n cael ei mewnosod gan adran 3(2) o'r Bil – yn cynnwys darpariaeth i sicrhau bod rhaid i'r rheoliadau yn y dyfodol bennu'r camau sydd i'w cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol. At hynny, mae adran 10A(3) yn nodi bod rhaid i reoliadau yn y dyfodol wneud darpariaeth at ddibenion sicrhau tryloywder a thegwch, sy'n egwyddorion caffael allweddol, yn ogystal â sicrhau y gellir gwirio cydymffurfedd a rheoli gwrthdrawiadau buddiannau.

Gan hynny, nid yw wyneb y Bil ei hun yn nodi'r camau manwl y mae angen i 'awdurdodau perthnasol' eu cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol a sicrhau tryloywder o dan y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig. Caiff y camau hyn eu cynnwys fel rhan o'r manylion yn y rheoliadau yn y dyfodol. Ar ôl adolygu'r trawsgrifiad o'r sesiwn a'r ymatebion i'r materion hyn, roeddwn yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i egluro'r pwyntiau hyn, er cywirdeb.

Os oes unrhyw gwestiynau pellach, neu ragor o feysydd y mae angen eu hegluro, byddai fy swyddogion a minnau'n falch o ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen er mwyn cefnogi'r Bil wrth iddo fynd drwy broses graffu'r Senedd.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, er gwybodaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services